**Telerau ac Amodau Prifysgol Bangor (Sesiwn Academaidd 2016/17)**

Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen a deall y Telerau ac Amodau hyn cyn i chi dderbyn lle ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn cynnwys cysylltiadau at ddogfennau eraill ar wefan y brifysgol. Trwy dderbyn yn ffurfiol gynnig o le i astudio yn y brifysgol, rydych yn derbyn y Telerau ac Amodau yn y ddogfen hon, a hefyd yn derbyn rheoliadau'r brifysgol a nodir yng ngwefan y brifysgol.

**Derbyniadau:**

1. Rheolir recriwtio a derbyniadau yn y brifysgol fel y nodir yn y Cod Ymarfer Recriwtio a Derbyn (Cod 09 Mai 2012) -manylion llawn i'w cael yma. Mae'r polisi derbyniadau'n ceisio sicrhau bod yr holl bolisïau a dulliau gweithredu'n cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth berthnasol (e.e. cyfle cyfartal, anabledd, etc) a'u bod yn glir, yn deg ac yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson. Tynnir eich sylw'n neilltuol at y canlynol:

   1.1 Tra bydd y brifysgol yn ceisio sicrhau y bydd yr holl raglenni astudio a modiwlau a hysbysebwyd yn cael eu cynnal, fe all sefyllfaoedd godi lle bydd hynny'n amhosibl am resymau a fydd yn rhesymol y tu hwnt i reolaeth y brifysgol. Mewn achosion felly, bydd y brifysgol yn rhoi gwybod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl i unrhyw ymgeiswyr sydd â chynigion i ddod i astudio'r cyrsiau hynny. Bydd y brifysgol hefyd yn ceisio cael hyd i gwrs arall derbyniol i'r ymgeiswyr. Mewn achosion lle na ellir cael hyd i ddewis arall addas, bydd y brifysgol wedyn yn cynorthwyo'r ymgeisydd cyhyd ag y bo'n rhesymol i gael hyd i le mewn man arall.

   1.2 Cyhoeddir y ffioedd dysgu i'r holl gyrsiau ar wefan y brifysgol ar gyfer pob sesiwn academaidd. Lle na chynigir lleoedd ar gyrsiau drwy UCAS, yna bydd yr holl ffioedd cysylltiedig â'r cwrs yn cael eu nodi yn y cynnig. Trwy dderbyn cynnig, caiff ymgeiswyr eu hatgoffa eu bod yn cydnabod y bydd y ffioedd a nodwyd yn dod yn ddyledus pan fyddant yn cofrestru.

   1.3 Gellir canslo ceisiadau:
      1.3.1. Os yw'r cais yn cynnwys gwybodaeth anghywir
      1.3.2. Os nad yw'r ymgeisydd wedi datgan euogfarnau perthnasol
      1.3.3. Os nad yw'r ymgeisydd wedi ymateb i geisiadau gan y brifysgol am wybodaeth ychwanegol o fewn cyfnod rhesymol (30 diwrnod).
      1.3.4. Os bydd y brifysgol yn dod i wybod am unrhyw wybodaeth arall sy'n cyfiawnhau diddymu'r cais neu unrhyw gynnig/gynigion a wnaed eisoes.

   1.4. Lle bo ymgeisydd yn datgan bod ganddo/ganddi euogfarn troseddol perthnasol fel rhan o'r cais, bydd y brifysgol yn ceisio gwybodaeth ychwanegol a rhoddir y cais o'r neilltu. Bydd gwybodaeth am euogfarnau troseddol yn cael ei chadw'n gyfrinachol a'i rhannu'n unig â'r staff hynny yn y brifysgol a fydd yn ymwneud â phenderfynu a oes yna unrhyw risgiau'n gysylltiedig â derbyn ymgeisydd. Gall ystyried euogfarn(au) troseddol arwain at lunio trefniadau arbennig, neu at wrthod cais.

   1.5. Lle mae ymgeisydd yn dymuno cwyno'n ffurfiol ynghylch unrhyw agwedd ar y broses

ymgeisio a derbyn, dylid dilyn y drefn ym mharagraffau 56-58 y Cod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyniadau (Cod 09 Mai 2012).

**Ar ôl cofrestru**

2. Rhaid i bob myfyriwr gofrestru'n ffurfiol gyda'r Gofrestrfa Academaidd yn y brifysgol ar ddechrau eu cwrs ac, yn dilyn hynny, bydd angen iddynt gadarnhau o bryd i'w gilydd eu bod yn parhau i fynychu eu cwrs. Mae'n ofynnol bod y brifysgol yn cadw gwybodaeth gyfredol ar ei holl fyfyrwyr cofrestredig. Gellir codi taliadau am gofrestru'n hwyr neu fethu â chadarnhau presenoldeb pan ofynnir am hynny. Mae manylion am y taliadau hyn i'w cael yn y Rhestr Ffioedd Dysgu.

**3.** Mae myfyrwyr cofrestredig yn dod dan reolau a rheoliadau'r brifysgol a thynnir eich sylw'n neilltuol at y canlynol:

3.1 Mae'r brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr gwrdd â'r safonau ymddygiad a ddiffinnir gan ei rheoliadau. Bydd y brifysgol yn cymryd camau disgyblu os bydd unrhyw achos o dorri'r rheoliadau.

3.2. Rhaid i bob myfyriwr dalu ffioedd a dirwyon a bennir gan y brifysgol. Fel rheol, rhaid talu ffioedd cyn y cyfnod astudio ond gellir trefnu talu mewn rhandaliadau. Lle bo myfyriwr yn mynd i ddyled o ran ffioedd academaidd (e.e. ffioedd dysgu), gall y brifysgol weithredu sancsiynau yn cynnwys: gwrthod â chaniatau i'r myfyriwr gofrestru, cadw dogfennau Prifysgol yn ôl (e.e. tystysgrifau cymwysterau), cymryd camau cyfreithiol. Lle bo ar fyfyriwr ffioedd heb fod yn rhai academaidd (e.e. ffioedd llety), yna gellir gweithredu'r sancsiynau a nodir yn y Cytundeb Preswylio a gellir cymryd camau cyfreithiol i gael y myfyriwr i dalu'r ddyled.

3.3. Rhoddir cyfeiriad e-bost prifysgol i fyfyrwyr a disgwylir iddynt edrych ar eu cyfrif e-bost prifysgol yn rheolaidd. Y cyfrif hwn a ddefnyddir gan y brifysgol i gyfathrebu'n electronig â'r myfyrwyr.

3.4. Caiff presenoldeb myfyrwyr ei fonitro fel y disgrifir yn Natganiad Polisi'r Brifysgol ar Fonitro Presenoldeb ac Ymroddiad Myfyrwyr.

3.5. Fel amod cofrestru, mae'r brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr roi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani, fel y gall y brifysgol gyflawni ei busnes a'i rhwymedigaethau cyfreithiol i gyrff statudol (e.e. Hysbysiad Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch: HESA). Mae gan y Brifysgol Bolisi Amddiffyn Data mewn grym.

3.6. Er mwyn symud o un lefel rhaglen i un arall (er enghraifft, o flwyddyn gyntaf i ail flwyddyn gradd israddedig), mae'n rhaid i bob myfyriwr gyflawni'r safonau disgwyliedig ar gyfer eu cwrs fel y nodwyd yn rheoliadau'r cwrs.

3.7. Mae astudio yn y brifysgol yn dibynnu ar onestrwydd academaidd a gellir rhoi cosbau, yn cynnwys atal myfyrwyr o'u hastudiaethau, am ymarfer annheg. Mae enghreifftiau o ymarfer annheg yn cynnwys cyflwyno gwaith rhywun arall fel eich gwaith eich hun (llên-ladrad) neu dwyllo mewn arholiad.

3.8. I gwblhau rhaglen yn llwyddiannus, mae'n rhaid i bob myfyriwr gyflawni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer eu cwrs fel y nodwyd yn rheoliadau'r rhaglen.

**Cwynion ac apeliadau**

4. Os bydd myfyriwr am gwyno ynglŷn ag agweddau ar ei gwrs/chwrs, neu unrhyw wasanaeth arall a gynigir gan y brifysgol, dylai ddefnyddio'r Drefn Cwynion Myfyrwyr.
5. Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau, sy'n cynnwys penderfyniadau Byrddau Arholi a Swyddogion Disgyblaethol.

**Amrywiadau i'r Telerau ac Amodau**

Mae gan y Brifysgol hawl i ddiwygio ei rheoliadau, ond bydd yn rhoi gwybod i chi am newidiadau a all effeithio ar eich astudiaethau neu gynnydd academaidd.

**Mae'r Telerau ac Amodau uchod yn rhan yn unig o'r Telerau ac Amodau llawn sy'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i'r brifysgol a chofrestru ynddi. Mae'r telerau llawn i'w cael mewn nifer o ddogfennau ac maent, o anghenraid, yn fwy manwl. I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch yma.**

Mae Polisi Derbyn newydd wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd mewn amser yn disodli'r Cod Ymarfer, gydag effaith o Fedi 2017